**Pwysigrwydd Rhybuddion Cynnwys Rhaglenni:**

Mae'n angenrheidiol i raglenni/cynnwys teledu gael rhybuddion am sawl rheswm allweddol – megis rhoi caniatâd gwybodus, diogelwch a pharch i'r gwyliwr ynghylch y cynnwys y maent yn dewis ei wylio. Yn aml, mae rhaglenni S4C yn defnyddio labeli canllaw i rybuddio gwylwyr am gynnwys a allai fod yn anaddas am resymau sy'n cwmpasu ystod o faterion, gan gynnwys trais, iaith gref, cynnwys rhywiol, defnyddio cyffuriau, a delweddau sy'n fflachio.

**Amddiffyn Gwylwyr rhag Cynnwys Niweidiol neu Aflonyddgar:**

Mae rhybuddion yn helpu gwylwyr i osgoi cynnwys a allai fod yn ofidus neu'n sbarduno ymateb gref, ac yn caniatáu i unigolion - yn enwedig y rhai sydd â sensitifrwydd neu drawma yn y gorffennol - wneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn y maent yn ei wylio, megis:

- Trais
- Cynnwys rhywiol
- Iaith gref
- Defnyddio cyffuriau
- Themâu cam-drin, trawma, neu broblemau iechyd meddwl

**Priodoldeb Oedran:**

Mae rhybuddion cynnwys yn helpu rhieni a gwarcheidwaid i benderfynu beth sy'n addas i blant a phobl ifanc. Mae rhybudd yn rhoi arwyddion clir y gallai rhaglen gynnwys deunydd sy'n amhriodol i wylwyr iau ac i rybuddio gwylwyr, yn enwedig rhieni a gwarchodwyr, am gynnwys a allai fod yn amhriodol i blant.

**Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Rheoleiddiol:**

Mae pob darlledwr yn ddarostyngedig i reoliadau i sicrhau:

- Cydymffurfiaeth â chyfreithiau gwedduster ac anweddustra
- Diogelu cynulleidfaoedd rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus
- Glynu wrth reolau trothwy (beth y gellir ei ddangos ar ba adeg)
- Atebolrwydd i ddarlledwyr

**Parchu Ymreolaeth Gwylwyr:**

Mae darparu rhybuddion yn parchu hawl y gynulleidfa i ddewis. Gall pobl benderfynu a ddylent ymgysylltu â deunydd yn seiliedig ar eu lefelau cysur a'u gwerthoedd personol.

**Hyrwyddo Darlledu Cyfrifol:**

Mae rhybuddion cynnwys yn adlewyrchu arferion cyfryngau moesegol. Maent yn dangos bod cynhyrchwyr a darlledwyr yn cydnabod effaith bosibl eu cynnwys ac yn gweithredu'n gyfrifol.

Yn ogystal â'r labeli canllaw, mae gan S4C fesurau cydymffurfio eraill:

**Sgyrsiau Cydymffurfio Ffurfiol:**

Mae'r sgyrsiau hyn rhwng Comisiynydd S4C a chynhyrchwyr annibynnol yn nodi problemau a risgiau posibl, ac yn sefydlu cynllun ar gyfer cydymffurfio.

**Cynnwys Ôl-Trothwy:**

Mae'r trothwy 9pm yn bwynt allweddol, ac ar ôl hynny gellir darlledu mwy o gynnwys i oedolion, ond hyd yn oed wedyn, dylid rhybuddio gwylwyr am gynnwys a allai fod yn dramgwyddus ac mae angen ystyried disgwyliadau'r gynulleidfa yn ofalus. Dylid osgoi newid rhy sydyn i gynnwys aeddfed ar ôl y trothwy heblaw fod yna rybudd clir.

**Cynllunio Cynnar a Rhannu Gwybodaeth:**

Gwneir penderfyniadau ynghylch cynnwys ac amserlennu yn gynnar yn y broses gynhyrchu, gan ystyried natur y sianel a disgwyliadau'r gynulleidfa. Er mwyn caniatáu i S4C amserlennu ein cynnwys yn briodol a sicrhau bod disgwyliadau'r gynulleidfa wedi'u llunio yn unol â hynny, hoffem eich atgoffa o bwysigrwydd cwblhau'r ffurflen PAC cyn gynted â phosibl:




Dewiswch y rhybudd(ion) mwyaf priodol a chadwch nifer y rhybuddion i'r lleiafswm lle bo modd.

Bydd y ffurflen hon yn sicrhau bod y rhybuddion cywir yn cael eu nodi i'n timau amserlennu, cyflwyno a VOD, a fydd yn eu tro yn defnyddio'r rhain i gynnwys y rhybuddion ysgrifenedig a chyflwyno priodol, yn ogystal â sicrhau bod Gwefan Cymorth Gwylwyr S4C yn medru cynnig cymorth ac adnoddau priodol.

Ar adegau efallai y bydd cynnwys neu themâu yn y rhaglen nad ydych chi'n teimlo eu bod yn cyd-fynd yn gywir â'r disgrifiadau safonol sydd wedi'u cynnwys ar y ffurflen PAC. Neu efallai na fyddwch chi'n siŵr pa rybuddion ar y ffurflen PAC sydd fwyaf addas ar gyfer y cynnwys. Os felly, cysylltwch â'ch Comisiynydd S4C a trefnyddioncyfryngau@s4c.cymru a all drafod a chytuno ar eiriad/rhybuddion priodol.

**Gellir dod o hyd i gymorth ar ddefnyddio'r ffurflen PAC yma:**
https://pac.s4c.cymru/help/programmedeliveryform/